**Cofnodion Heb eu Cadarnhau**
**Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Cyfarfod Agored 12 Ionawr 2023, 13:30**
**Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Gweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) Ymunodd am 13:33, gadawodd am 15:55 |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Ymunodd am 14:14 |
| Liz Blayney | (LB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro |
| Sarah Brewer | (SB) | Pennaeth Profiad Cyflogeion |
| Matthew Browne | (MB) | Rheolwr Cynllunio Adnoddau a Gweithlu Strategol, Pobl/Gweithlu/Adnoddau Dynol. Ymunodd ar gyfer eitem 4.2 |
| Rupinder Dogra | (RD) | Pennaeth Partneriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Abby Headford | (AH) | Arsylwr |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd y staff |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio Gadawodd am 15:30 |
| Angela Jones | (AJo) | Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant |
| Joe O'Brien | (JOB) | Arweinydd Systemau a Dadansoddi'r Gweithlu Ymunodd ar gyfer eitem 4.2 |

Heb eu Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Samantha Morgan | (SM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Dealltwriaeth a Gwasanaethau |
| Reanne Reffell | (RR) | Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd Dros Dro |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 13:30*

**PODC 1/2023.01.12 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a ddaeth i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Ebrill 2023.

**PODC 2/2023.01.12 Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PODC 3/2023.01.12 Eitemau i'w Trafod**

**PODC 3.1/2023.01.12 Datblygu ein Datganiad ar Werth Cyflogeion**

Rhoddodd NL gyflwyniad ar ddatblygu ein Datganiad ar Werth Cyflogeion (EVP), gan amlygu ei berthnasedd ar draws y sefydliad a'i wneud yn gydnaws â Risg Strategol 4, sy'n anelu at fynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu o ran denu, recriwtio a chadw staff.

Rhoddodd SM gyflwyniad gan amlygu tri nod strategol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Datblygu Pobl a Sefydliadau: diwylliant a phrofiad rhagorol i gyflogeion; creu'r effeithiolrwydd sefydliadol gorau; a rheoli busnes a phrosesau manwl. Cydnabuwyd y byddai datblygu EVP yn cefnogi'r Sefydliad i wella'r broses o ymgysylltu â chyflogeion a'u cadw, yn gwella'r cynnig i ymgeiswyr newydd; yn lleihau trosiant staff; ac yn cryfhau'r diwylliant Sefydliadol. Roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar draws y sefydliad a

Heb eu Cadarnhau

byddai'r cynnig drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ddilysu ac i dderbyn sylwadau.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- Ystyried pwynt gwerthu unigryw y Sefydliad, sy'n cynnwys y gallu i ddenu ystod eang o unigolion â gallu a sgil ar bob lefel, ac i hwyluso'r broses o'u hyfforddi, datblygu a gwella o fewn y Sefydliad,
- Ganfod yr angen am adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r prosiect yn llwyddiannus ac roedd yn awyddus i gefnogi'r Gyfarwyddiaeth fel y bo'n briodol. Ystyriodd y Pwyllgor yr angen i sicrhau bod yr EVP yn realistig, gan ystyried sut i fesur llwyddiant y Prosiect,
- Ystyried bod angen sicrhau bod 'Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau' yn berthnasol i bob aelod o staff a'u bod yn ei ddefnyddio, gan gynnwys staff yn y gweithle megis y rhai o fewn Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Sgrinio a Labordai,
- Ystyried y ffordd orau o ddefnyddio a sefydlu fframwaith Sgiliau Iechyd y Cyhoedd, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygu unigolion medrus yn yr iaith Gymraeg sy'n gweithio ar bob lefel.

Diolchodd y Pwyllgor i NL a SM am y cyflwyniad, gan roi pwyslais ar werthfawrogi pob aelod o staff a **chytunodd** i ystyried y prosiect ymhellach cyn ei lansio yn ystod y Gwanwyn.

Nododd y Pwyllgor bod angen ystyried hyn yng nghyd-destun cynllunio'r gweithlu.

| **PODC 4/2023.01.12** | **Eitem er Sicrwydd** |
|---|---|
| **PODC 4.1/2023.01.12** | **Ymgysylltu â Staff a Phartneriaeth Staff** |
| **PODC 4.1.1/2023.01.12** | **Rhwydwaith Staff – Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu** |

Rhoddodd SB drosolwg i'r Pwyllgor o'r twf mewn Rhwydweithiau Staff dros y deuddeg mis diwethaf, gan gynnwys sefydlu dau Rwydwaith newydd (y Rhwydwaith Cymraeg a'r Rhwydwaith i Ddynion) a'r gwahoddiad i gyfrannu at brosiectau Datblygu Sefydliadol. Rhoddodd SB wybod i'r Pwyllgor am waith archwilio diweddar gyda sefydliadau eraill y GIG a'r Llywodraeth a'r bwriad yw llwyfannu 'ffair gyrfaoedd i bobl anabl' yn y dyfodol agos.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Sefydlu dau rwydwaith newydd, ac er eu bod y tu hwnt i'r cylch gwaith amrywiaeth mae'n rhoi cyfle i ymgysylltu â hyd yn oed mwy o grwpiau o staff. Roedd y Rhwydwaith Cymraeg yn benodol yn gyfle amserol i ail-edrych ac i wella agenda'r Iaith Gymraeg o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cytunodd SB fod y Rhwydwaith Cymraeg yn Rhwydwaith unigryw a'i gwmpas yn fwy eang nag amrywiaeth, a byddai'n ddefnyddiol mynd ati i ddatblygu'r Rhwydwaith gan ddefnyddio

Heb ei Gadarnhau

cymorth, gwybodaeth a dealltwriaeth y Rhwydweithiau eraill sydd wedi'u sefydlu.

- Nodi'r cysylltiad rhwng y Rhwydweithiau a pha mor bwysig yw cael mewnbwn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol y trydydd sector, a hynny mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith Ymgysylltu a Phrofiad sydd newydd ei sefydlu,
- Nodi cynlluniau i gyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR),
- Nododd y Pwyllgor fod Rhwydweithiau eraill ar gael yn ogystal â'r Rhwydweithiau Amrywiaeth, ac felly gofynnodd am drosolwg o'r holl ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â staff.

**Camau Gweithredu: NL**

**Nododd** y Pwyllgor y cynnydd a wnaed o gymharu â cheisiadau gan rwydweithiau staff hyd yma, fel y nodir yn y papur ac ar y daenlen gysylltiedig, chafodd **sicrwydd** o hynny.

| **PODC 4.1.2/2023.01.12** | **Diweddariad ar Ymgysylltu â Staff a'r Cynllun ar gyfer 2023/24** |
| --- | --- |

Rhoddodd RA drosolwg i'r Pwyllgor o'r holl ffyrdd gwahanol o ymgysylltu, gan grynhoi'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau'r treial 'Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau', cefnogi staff, a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw drwy ymgysylltu â Rhwydweithiau, ac ymgysylltu'n barhaus ac yn rheolaidd â'r Fforwm Partneriaeth Lleol, a'r Cyd-bwyllgor Negodi Meddygol a Deintyddol a'r camau nesaf er enghraifft.

Dywedodd RA y byddai'r data a gesglir mewn arolygon yn cael ei roi mewn un cynllun gweithredu ac yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu dull strategol a systematig o ymgysylltu â chyflogeion. Roedd hyn yn rhan allweddol o ymrwymiad y Sefydliad i ddiwylliant a phrofiad.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgysylltu â staff y rheng flaen a gofynnodd am grynodeb o ganlyniadau'r ffyrdd o ymgysylltu pan fo'n briodol.
**Camau Gweithredu: LB/NL**

Diolchodd y Pwyllgor i RA am y cyflwyniad a **nododd** y byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law.

| **PODC 4.1.3/2023.01.12** | **Diweddariad ar y Fforwm Partneriaeth Lleol** |
| --- | --- |

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan SM ar ddulliau ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol, gan nodi bod cyfarfodydd wedi'u trefnu bob deufis ar gyfer 2023-24.
Sefydlodd UNSAIN ac UNITE weithgor gyda MiP (Rheolwyr mewn Partneriaeth) er mwyn i'r pwyllgorau staff ehangach ystyried diwygio'r Cylch Gorchwyl. Cytunodd SM i ddiweddaru'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
**Camau Gweithredu: (SM)**

Heb eu Cadarnhau

**Nododd** y Pwyllgor y gwaith sy’n cael ei wneud yn barhaus i sicrhau bod y Coleg Nyrsio Brenhinol yn cael ei gynrychioli ar y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Diolchodd y Pwyllgor i SM am y diweddariad cynhwysfawr ar lafar.

| **PODC 4.2/2023.01.12** | **Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad ar Sefydlogrwydd ac ystwythder y gweithlu gan MB. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar bedwar maes: amodau a thueddiadau’r farchnad lafur gyfredol; deall data gan y rhai sy’n ymuno ac yn gadael; rôl cynllunio’r gweithlu; a defnyddio’r data a gasglwyd.

Dechreuodd y Sefydliad ddefnyddio dull newydd yn ddiweddar o gofnodi gwybodaeth am y rhai sy’n ymuno ac yn gadael, a bydd adroddiad gyda dadansoddiad o’r data hwn yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor ar adeg priodol maes o law.
**Camau Gweithredu:  MB**

Rhoddodd MB arddangosiad byw o’r Dangosfwrdd Cychwyn a Gadael, gan amlygu’r meysydd sy’n peri pryder o fewn y Sefydliad:
- dangosodd yr ystod o dan 20 oed mai nifer isel sy’n cychwyn.
- roedd nifer y rhai sy’n gadael heb weithio 12 mis yn uchel, ac roedd cyfran fawr o’r rhai sy’n gadael yn staff parhaol – sy’n nodi lefel uchel o recriwtio’n rheolaidd.

Nodwyd fod yr adran Cynllunio’r Gweithlu yn defnyddio’r Dangosfwrdd i dargedu meysydd o fewn y Sefydliad ble gellid defnyddio ffyrdd da o ddenu, cadw ac olynu gweithwyr, gan lenwi’r bwlch rhwng y galw am weithlu a chyflenwad y gweithlu.

Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd a welwyd mewn cyfraddau salwch ar y Dangosfwrdd.  Cadarnhaodd JOB fod y cynnydd mewn cyfraddau absenoldeb salwch yn cael eu monitro, ac y byddai’n rhannu dadansoddiad o’r data absenoldeb salwch ynghyd â’r data trosiant staff y tu allan i’r Pwyllgor.
**Camau Gweithredu:  JOB**

Nododd y Pwyllgor fod yr heriau o ddenu ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai o dramor, yn rhannol oherwydd y system gymwysterau a’r oedi mewn cyhoeddi fisas.  Awgrymodd y Pwyllgor y dylai NL ystyried y ffordd orau o gynnwys hyn yn y gofrestr risg.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y cysylltiad posibl rhwng y cyfraddau salwch uwch â’r pwysau ychwanegol mae staff y rheng flaen yn ei wynebu.

**Nododd** y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd a diolchodd i MB a JOB am y diweddariad.

Heb eu Cadarnhau

| **PODC 5/2023.01.12** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **PODC 5.1/2023.01.12** | **Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau (2022)** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2022, a nodi bod y blwch wedi disgyn i 11.5% eleni o gymharu â 16.1% ar gyfer y flwyddyn gofnodi ddiwethaf. Trafodwyd y rhesymau dros y gostyngiad a nodwyd mai cynnydd mewn bandiau cyflog a mabwysiadu 'Gweithio yn y Ffordd sy'n Gweithio Orau' yw rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn.

Cyhoeddodd y Sefydliad hefyd adroddiad ar y Bwlch Cyflog ar Sail Ethnigrwydd (-4.5% o blaid staff o leiafrifoedd ethnig) a'r Bwlch Cyflog Rhwng Pobl Anabl (11.5%). Roedd gwaith yn cael ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth y staff o'r angen i ddatgan gwybodaeth bersonol er mwyn cael gwybodaeth fwy cywir o hyn ymlaen.

Awgrymodd y Pwyllgor y byddai elfen ofalu y ffigurau hyn yn cael ei dangos yn fwy cywir, gan gynnwys staff sy'n gofalu am rieni neu berthnasau hŷn. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Sefydliad ystyried ffyrdd o gefnogi gofalwyr, gan nodi y gellir ei gysylltu â gwaith ar y Datganiad ar Werth Cyflogeion.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddadansoddiad pellach o'r Bwlch Cyflog ar gyfer y categori oedran hŷn gan fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn tueddu i wrth-ddweud tueddiadau cenedlaethol ar ôl y pandemig. Cytunodd SB i ymchwilio hyn ymhellach.
**Camau Gweithredu: SB**

Ystyriodd y Pwyllgor y gymhareb gweithlu dynion/merched, gan nodi mai cymarebau tebyg sydd i'w gweld ar draws y rhan fwyaf o leoliadau gofal iechyd. Ystyriodd y Pwyllgor y tueddiad hwn ac y gallai barhau wrth i'r Sefydliad ddatblygu ei nod i fod yn gyflogwr cynhwysfawr a hyblyg.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

| **PODC 5.2/2023.01.12** | **Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod (6 Hydref 2022)** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor y cofnodion a'r cofnod o gamau gweithredu.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2022.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y penderfyniad i gau pump o'r camau gweithredu ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

| **PODC 6/2023.01.12** | **Eitemau i'w Nodi** |
|---|---|
| **PODC 6.1/2023.01.12** | **Rheoli Risgiau** |

Heb eu Cadarnhau

| | |
| --- | --- |
| **Derbyniodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol a Chorfforaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor a'i **nodi**, a **sicrhau** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y risgiau'n fwy manwl yn y cyfarfod nesaf. | |
| **PODC 6.2/2023.01.12** | **Cynllun Gwaith** |
| **Derbyniodd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl 2022/23 a **nodi** hynny. | |
| **PODC 6.3/2023.01.12** | **Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Adroddiad Terfynol** |
| **Derbyniodd** a **nododd** y Pwyllgor Adroddiad Terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Monitro Absenoldeb Salwch y Gweithlu. | |
| **PODC 3/2023.01.12** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
| Unrhyw Fater Arall:<br>• Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.<br><br>Adborth gan y Pwyllgor:<br>• Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth o'r cyfarfod gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.<br><br>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:<br>• Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 18 Ebrill 2023. | |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 16:02* | |

Heb eu Cadarnhau